VivaChek™ Ino

## System Monitro Glwcos y Gwaed

# Canllaw Cyfeirio Cyflym

Darllenwch eich Llawlyfr y Defnyddiwr i gael cyfarwyddiadau llawn cyn gwneud prawf glwcos y gwaed


IVD

CE 0197

# Eich Mesurydd a Stribed Profi Ino VivaChek ™




# Eich Dyfais Bigo VivaChek™




# Paratoi'r Ddyfais Bigo


Pwysig:
Cyn gwneud y prawf, sychwch y croen lle byddwch yn gwneud y prawf gyda swab alcohol neu ddŵr a sebon. Defnyddiwch ddŵr cynnes i ddod â mwy o waed yno os oes raid. Yna sychwch eich dwylo a'r croen lle'r ydych am wneud y prawf yn drwyadl.

1. Dadsgriwiwch orchudd y ddyfais bigo o gorff y ddyfais bigo. Rhowch bigyn di-haint i mewn i'r ddyfais bigo.







2. Daliwch y pigyn yn gadarn yn y ddyfais bigo a throi tab diogelwch y pigyn nes ei fod yn dod yn rhydd, yna tynnwch y tab diogelwch oddi ar y pigyn.




3. Yn ofalus sgriwiwch y gorchudd yn ôl ar y ddyfais bigo.




4. Newidiwch ddyfnder y pigiad drwy droi gorchudd y ddyfais






5. Tynnwch y baril codi yn ôl i osod y ddyfais bigo.



# Gwneud Prawf Glwcos y Gwaed

1. Tynnwch stribed profi o’r cynhwysydd stribedi. Caewch gaead y cynhwysydd yn dynn yn syth ar ôl tynnu’r stribed profi.


2. Rhowch y stribed profi i mewn i’r mesurydd yng nghyfeiriad y saethau. Bydd y mesurydd yn dod ymlaen ar ei ben ei hun.





3. Bydd symbol gyda stribed profi a gwaed yn fflachio yn ymddangos i adael i chi wybod bod y mesurydd yn barod i wneud y prawf.




4. Gwasgwch y ddyfais bigo yn erbyn ochr y bys sydd i gael y pigiad gyda'r gorchudd yn gorwedd ar y bys. Gwthiwch y botwm rhyddhau i bigo pen eich bys.




5. Ar unwaith, gosodwch ben y stribed profi ar y diferyn o waed. Mae'r gwaed yn cael ei dynnu i mewn i'r stribed profi drwy'r pen. Peidiwch â rhoi gwaed ar ben y stribed profi.





6. Mae'r mesurydd yn cyfri i lawr o 5 i 1 ac yna mae canlyniad eich prawf i'w weld ar y sgrin ac mae'n cael ei storio'n awtomatig yng nghof y mesurydd.




VivaChek™

**VivaChek Laboratories, Inc.**
913 N Market Street, Suite 200,
Wilmington, DE 19801, USA

www.vivachek.com

EC REP
Lotus Medical Equipment Limited
26B Cameron Court, Cork Street,
Dublin 8, Ireland

Distributed in Wales by JRBiomedical Ltd, OpTIC Centre,
Glyndwr University, St Asaph, LL17 0JD.

Version JRBVCIWELSH01 August 2016